Elliw a Mr Blake

"Pwy wyt ti?" gofynnodd Elliw. Roedd honno'n sbïo'n chwilfrydig ar ddyn canol oed oedd yn gwenu'n glen arni. Ond doedd Elliw ddim yn fodlon aros am yr ateb.

"'Nhad i wyt ti?" Cyn gynted ag iddi ofyn y cwestiwn, teimlai Elliw gywilydd. Dyma gwestiwn haerllug i'w ofyn i estron. Ond ymddengys nad oedd y dyn wedi'i fwrw oddi ar ei echel gan yr ymholiad.

"Mr Blake ydw i," atebodd yn raslon ac ymgrymu iddi. "Ond cyn i ni benderfynu os mai dy dad di ydw i, dylwn i ofyn pwy wyt ti." Gwenodd y dyn yn gynnes. Dyma ddyn dymunol.

"Elliw dw i." Pam ei bod hi wedi gofyn cwestiwn mor hurt? Peth anfoesol yw gofyn i rywun ai dy dad ydy e. Roedd yn difaru'n ofnadwy iddi ofyn y fath gwestiwn. Elliw, mae dy dafod yn achosi problemau i ti eto, meddyliodd. Am y tro cyntaf, syllodd Elliw ar y dyn o ddifrif. Roedd Mr Blake yn foel ac eithrio ambell dusw o flew gwyn o gwmpas ei glustiau. Llygaid bywiog, wyneb crwn â gwen dyner, dyma ddyn a allai rhywun ymddiried ynddo. Hefyd, roedd gan ei ddillad rhyw agwedd annisgwyl. Siaced las, gwasgod â botymau pres, a llodrau byrion yn cau am y pen-glin.

Doedd ei ddillad ddim yn eithriadol o daclus nac yn dreuliedig eu golwg. Dyma ddillad hen hen ffasiwn. O'r bedwaredd ganrif ar bymtheg? Cyn hynny? Rhywsut roedd y dyn wedi cyrraedd oes arall. Methai Elliw â gwneud na phen na chynffon o'r dyn, ond teimlai mai un deallus ydoedd.

"Pam wyt ti wedi gofyn i mi am dy dad di?" meddai Mr Blake, ei wep yn ddisgleirdeb i gyd.

Allai Elliw ddim meddwl am unrhyw beth i'w ddweud ond y gwirionedd.

"Dw i newydd sylweddoli nad oes gen i dad." Pam nad ydy hi wedi sylweddoli hyn o'r blaen? Ond roedd popeth yn ddatgysylltiedig ac roedd y sgwrs yn chwyrlio

heb reolaeth. Gwyddai Elliw fod anrhefn y sgwrs yn golygu rhywbeth ond allai hi ddim cofio beth.

“Rwyt ti’n gywir. Mae angen rhieni ar bobl,” meddai’r dyn. “Mae angen rhieni a* syniadau hefyd. Dylai syniadau ddod o rywle, cymaint â phobl.” Pan siaradai Mr Blake, ymddangosai pob gair a ddaethai o’i enau mor amlwg. Yna, meddyliodd Elliw am ei siwrnai. Oedd ’na unrhyw ran o’i thaith yn fwy astrus na hyn?

Edrychodd Elliw yn gegrwth ar Mr Blake, nes iddo egluro.

“Ydyn ni’n dau yn fwy na syniadau?” gofynnodd Mr Blake.

“Wn i’m,” atebodd Elliw’n amheus a’i hwyneb yn llawn penbleth. “Ond ble ydyn ni?” atebodd hi.

Edrychodd y ddau o’u cwmpas. Cafodd Elliw'r argraff bod Mr Blake wedi bod yn y lle yma ers tro byd a hithau ddim ond newydd gyrraedd yno.

“Os mai syniad wyt ti, pwy bynnag sydd wedi ysbrydoli’r syniad, hwnnw fydd dy dad di, ie?”

Yn ôl pob tebyg, meddyliodd Elliw.

“Ble ydyn ni?”

“Sbia o’th gwmpas,” a chwifiodd Mr Blake ei law mewn symudiad graslon tuag at yr ystafell.

Gwelodd Elliw ystafell fel croglofft. Hen flychau, llyfrau, peintiadau, roedd pob math o bethau yno, mewn pentyrrau anhrefnus.

“Mae’r foneddiges yn cysgu”, eglurodd Mr Blake.

“Y foneddiges?” adleisiodd Elliw mewn penbleth. “Pwy ’di’r foneddiges?”

“Ti’n gwybod,” meddai Mr Blake yn dyner. Teimlodd Elliw ei bod wedi ymddangos yn dwp hyd yn hyn.”

“Efa.”

Amneidiodd Mr Blake.

Yna, sylweddolodd Elliw mai mewn breuddwyd oedd hi. Wrth gwrs! Mewn cwsg bydd sgyrsiau yn mynd ac yn dod yn ôl eu rhesymau eu hunain. Breuddwydio ydw i!

“Ydw i mewn breuddwyd?” gofynnodd Elliw. Dyna’r eglurhad mwyaf rhesymol, meddyliodd.

“Wyt. Yn union.”

“Pryd ddeffra i?”

Syllodd Mr Blake ar Elliw fel petai’n athro caredig.

“Dim ti sy’n breuddwydio.”

Arhosodd Mr Blake nes i Elliw ddilyn beth oedd ganddo.

“Efa sy’n breuddwydio felly,” meddai Elliw.

“A dyna ni,” meddai Mr Blake yn garedig. Dim ond tri gair a ddywedodd ond credodd Elliw ei fod wedi siarad am funudau.

Deffrodd Efa a syrthiodd Elliw i gysgu am y tro. Mr Blake? Roedd yn fodlon â’r sgwrs. Ystyriodd yntau os oedd wedi cwrdd ag angel a dylai ei pheintio hi ar unwaith.